**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor y Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 9 Mawrth 2020 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | P K Jones | E T Kirchner |
| W G Lewis | G J Tanner | W G Thomas |

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams |
| C A Holley | L R Jones |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Robert Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Pamela Milford | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Durke, J A Hale a T J Hennegan
Aelodau Cyfetholedig Statudol: D Anderson-Thomas ac A Roberts
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: J W Jones

---

## 113 Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd P R Hood-Williams - Personol - Cofnod Rhif: 117 - Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Abertawe.

## 114 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 115 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

## 116 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 117 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth (y Cynghorydd Robert Francis-Davies).

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar benawdau allweddol ei bortffolio

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Aelod Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Caffael - trafferth wrth asesu/nodi effeithiau Brexit ar y broses gaffael ar hyn o bryd
- Canolfan Sector Cyhoeddus a Chanolfan Ddigidol - cynigion fel rhan o Gam 2 Abertawe Ganolog
- Blaendraeth - cwestiwn gan y cyhoedd ar bosibilrwydd gosod goleuadau stryd ar y blaendraeth rhwng SA1 a'r Mwmbwls i hyrwyddo defnydd a diogelwch
- Twristiaeth - diweddariad ar gamau gweithredu'r Gweithgor Twristiaeth, yn enwedig ar gadw a chynnal a glendid ardaloedd twristiaeth fel Langland; eco-dwristiaeth a'r posibilrwydd o ehangu llwybrau beicio trwy ardal Gŵyr; gwella'r droedffordd rhwng Limeslade a Langland; blaenoriaethau ariannu a chyllid ar gael ar gyfer twristiaeth
- Parc Singleton - defnyddio'r parc ar gyfer digwyddiadau
- Diweddariad ar yr Ardal Gopr, Gwaith Copr yr Hafod-Morfa a datblygu Skyline
- Diweddariad ar Wasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg a lle ar ei gyfer yn y dyfodol
- Cynllun Gwella Marchnad Abertawe - ychwanegu cyfleusterau toiledau a diweddariadau/digwyddiadau posib
- Oriel Gelf Glynn Vivian - penodi curadur newydd a gwelliannau

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 118 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth (y Cynghorydd Robert Francis-Davies).

Cyflwynodd y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd, adroddiad am y diweddaraf gan y 'Panel Craffu Perfformiad Addysg'. Tynnodd sylw’n benodol at y pwyntiau canlynol yng ngwaith y Panel:-

- Dysgwyr Prydau Ysgol am Ddim yn cyflawni'n sylweddol is na disgyblion eraill - parhau i fonitro
- Cyflwyno a monitro'r cwricwlwm newydd

- Problemau ynghylch diogelu yn ystod misoedd y gaeaf (goleuadau a diogelwch) a rhagor o draffig ger ysgolion
- Cafwyd trafodaethau ynghylch ôl-troed consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) yn y dyfodol

Teimlodd fod y panel wedi chware rôl allweddol wrth helpu'r cyngor i wella safonau a dywedodd fod Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a Chyfarwyddwr/Uwch-reolwr Addysg wedi ymwneud llawer â'r broses graffu.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 119 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am 'aelodaeth paneli a gweithgorau craffu'.

**Penderfynwyd** na fydd y Cynghorydd J A Hale yn rhan o'r Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio na Phanel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol mwyach.

## 120 Rhaglen Waith Craffu 2019/20.

Cyflwynodd y cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2019/20.

Amlygodd y trefnwyd i Aelodau'r Cabinet dros Gymunedau Gwell i fynd i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 20 Ebrill 2020 ac anogodd y Pwyllgor i ystyried cwestiynau/themâu ar gyfer y sesiwn hon.

Trefnwyd cyfarfod arbennig Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 6 Ebrill 2020 ar gyfer Craffu ar Drosedd ac Anrhefn.

O ystyried y sefyllfa bresennol, gofynnodd y Cadeirydd am drafodaeth ar ba mor barod y mae'r cyngor ar gyfer Coronafeirws. Awgrymodd y dylid ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod arbennig y pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 6 Ebrill a gwahodd Aelodau Cabinet/swyddogion perthnasol i gyflwyno i'r pwyllgor a diweddaru'r cynghorwyr ar gynlluniau'r cyngor.

**Penderfynwyd** ychwanegu trafodaeth ar ba mor barod y mae'r cyngor ar gyfer Coronafeirws at agenda cyfarfod arbennig Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 6 Ebrill.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 121 Llythyrau craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth. Darparwyd yr ohebiaeth ag Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth (Arweinydd) a gododd o'r sesiwn holi ac ateb ym mis Ionawr er mwyn ei thrafod.

**Nodwyd** yr adroddiad.

**122 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).**

Darparodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

**123 Dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.**

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.35 pm

**Cadeirydd**